# Adroddiad Arolygu Gofal Plant ar gyfer

**Clwb Gofal Ysgol y Model**

**50 Ffordd y Coleg**
**Caerfyrddin**
**SA31 3EG**

**This report is also available in English**

**Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg**



## Dyddiad Cwblhau'r Arolygiad

10/12/2019

***Llywodraeth Cymru © Hawlfraint y Goron 2020.***

*Cewch ddefnyddio ac ailddefnyddio'r wybodaeth sydd yn y cyhoeddiad hwn (ac eithrio'r logos) yn ddi-dâl, mewn unrhyw fformat neu gyfrwng, o dan delerau'r Drwydded Llywodraeth Agored. Gallwch weld y Drwydded Llywodraeth Agored ar wefan yr Archifau Gwladol, neu gallwch ysgrifennu at The Information Policy Team, The National Archives, Kew, London, TW9 4DU, neu anfon e-bost at: psi@nationalarchives.gsi.gov.uk*

*Rhaid i chi atgynhyrchu ein deunydd yn fanwl gywir a pheidio â'i ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.*

## Disgrifiad o'r gwasanaeth

Cofrestrwyd Clwb ar ôl Ysgol y Model ym mis Ebrill 2018 ac mae'n darparu gofal y tu allan i'r ysgol i hyd at 56 o blant hyd at ddeuddeg oed. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu o neuadd ysgol yng Nghaerfyrddin. Mae'r gwasanaeth ar agor rhwng 3pm a 6pm yn ystod tymor yr ysgol yn unig. Saesneg yw prif iaith y gwasanaeth. Paul Lloyd yw'r person cofrestredig, a Lisa Evans yw'r person â chyfrifoldeb.

## Crynodeb

### 1. Asesiad cyffredinol

Mae'r plant yn egnïol, yn hapus ar y cyfan ac yn ymgysylltu â'u chwarae yn y clwb hwn. Maent yn mwynhau eu gweithgareddau, fel peintio, chwarae rôl a chwarae rhydd. Mae'r staff yn ofalgar ac yn cydweithio'n dda. Mae'r arweinwyr wedi gwneud rhywfaint o gynnydd mewn perthynas ag arwain a rheoli ac nid oes diffyg cydymffurfio mwyach.

### 2. Gwelliannau

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r arweinwyr wedi ailystyried y polisi amddiffyn plant ac wedi sicrhau bod y staff yn gyfarwydd â phob un o'r sefyllfaoedd y cyfeirir atynt yn y polisi. Yn ystod y broses arolygu, sicrhaodd y person cofrestredig fod y gwiriadau addasrwydd staff a ffeiliau'r staff wedi'u cwblhau.

### 3. Gofynion ac argymhellion

Gwnaethom argymhellion mewn perthynas â gofal a datblygu ac arwain a rheoli, ac mae'r rhain wedi'u rhestru yng nghefn yr adroddiad hwn.

# 1. Llesiant

## Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn, ac felly, nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

## Canfyddiadau

Fodd bynnag, mae'r plant wedi ymgartrefu ac maent yn mwynhau eu hamser rhydd yn y gwasanaeth. Maent yn hapus ac yn mwynhau chwarae gemau ac adeiladu blociau a chyfnewid cardiau. Mae'r plant yn frwdfrydig ac yn mwynhau eu gweithgareddau chwarae a dysgu, gan chwarae'n hapus ar eu pen eu hunain neu mewn grwpiau.

Caiff y maes hwn ei ystyried yn llawn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

## 2. Gofal a Datblygiad

### Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon yn llawn, ac felly, nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

### Canfyddiadau

Yn ystod yr arolygiad, dywedodd yr arweinwyr wrthym fod gan dri aelod o'r staff gymwysterau cymorth cyntaf dilys. Fodd bynnag, nid ydym wedi gweld pob tystysgrif. Mae gan yr ymarferwyr wybodaeth sylfaenol am amddiffyn plant ac maent yn deall eu cyfrifoldebau i amddiffyn plant. Mae'r arweinwyr wedi trefnu i rai aelodau o'r staff gael hyfforddiant amddiffyn plant.

Mae'r staff yn ymateb yn dda i'r plant ac yn garedig wrthynt. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw'r staff yn rhoi digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu hannibyniaeth ar adeg byrbryd.

Caiff y maes hwn ei ystyried yn llawn mewn arolygiadau yn y dyfodol.

## 3. Yr Amgylchedd

### Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, nid ydym wedi ystyried y thema hon, ac felly, nid ydym wedi cyhoeddi na diwygio unrhyw raddau a ddyfarnwyd yn flaenorol.

## 4. Arwain a Rheoli

### Crynodeb

Roedd hwn yn arolygiad â phwyslais penodol, i ystyried achos o ddiffyg cydymffurfio. Mae'r radd gyfatebol 'gwael' wedi cael ei hadolygu a'r radd a ddyfernir yn yr arolygiad hwn yw digonol. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r arweinwyr wedi dechrau gweithredu ar yr achosion o ddiffyg cydymffurfio a'r argymhellion a wnaed. Mae'r gwiriadau addasrwydd ar y staff bellach yn gyflawn. Mae'r arweinwyr wedi cyflwyno system o arfarniadau staff blynyddol ac mae'r gwaith o gadw cofnodion wedi gwella.

### Ein canfyddiadau

Yn ystod y broses arolygu, sicrhaodd y person cofrestredig fod y gwiriadau ar addasrwydd gweithwyr yn gyflawn ac yn foddhaol. Roedd ffeiliau'r staff yn cynnwys dogfennau perthnasol yn cynnwys geirdaon, datganiadau meddygol a gwiriad datgelu a gwahardd. Nid oedd y disgrifiadau swydd yn y ffeiliau ond dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod ar gael ac y byddent yn cael eu cynnwys yn ffeiliau'r staff. Mae'r staff wedi cofnodi pa gymwysterau sydd ganddynt. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cofnodi teitl llawn y cymwysterau. Dywedodd yr arweinwyr wrthym eu bod yn edrych ar dystysgrif cymwysterau pob aelod o'r staff cyn iddynt ddechrau gweithio yno. Mae'r arweinwyr wedi rhoi system newydd ar waith er mwyn monitro ac olrhain gwiriadau datgelu a gwahardd er mwyn sicrhau bod y gwiriadau'n cael eu diweddaru mewn modd amserol.

Mae datganiad o ddiben ar waith, ond nid oedd yn bodloni'r rheoliadau'n llawn. Cafodd copi ei ddiweddaru a'i anfon ymlaen atom gan y person cofrestredig yn ystod y broses arolygu ond mae angen rhai diwygiadau. Er enghraifft, nid oedd yn cynnwys rhifau cyswllt na threfniadau i adolygu'r datganiad o ddiben ac i roi gwybod i AGC am unrhyw newidiadau.
Yn ystod y broses arolygu, rhoddodd y person cofrestredig wybod i AGC am newid yn nifer yr aelodau o'r staff ar y safle.

Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r arweinwyr wedi cynnal yr arfarniadau staff blynyddol. Roedd yr arweinwyr hefyd wedi diweddaru'r llawlyfr staff a sawl polisi. Mae'r arweinwyr hefyd wedi gwella eu proses o gadw cofnodion. Er enghraifft, caiff y gofrestr ei chwblhau mewn modd amserol gan ddefnyddio beiro.  Fodd bynnag, nid oes system ar waith ar hyn o bryd i gofnodi na monitro hyfforddiant gorfodol yn effeithiol ac, o ganlyniad, nid yw'r arweinwyr yn hollol ymwybodol o ddyddiadau terfyn hyfforddiant.

## 5. Gwelliannau sydd eu hangen ac a argymhellir yn dilyn yr arolygiad hwn

### 5.1 Meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd mewn arolygiadau blaenorol

Yn yr arolygiad blaenorol, cyhoeddwyd hysbysiad diffyg cydymffurfio am nad oedd y gwasanaeth yn bodloni ei ofynion cyfreithiol mewn perthynas â'r canlynol:

- Addasrwydd Gweithwyr (Rheoliad 28): Yn yr arolygiad hwn, roeddem yn fodlon bod y gwasanaeth yn cydymffurfio â'r rheoliadau. Gwelsom fod gwybodaeth neu ddogfennaeth lawn a boddhaol ar gael mewn perthynas â phawb sy'n gweithio yn y safle.

### 5.2 Argymhellion ar gyfer gwella

Yn ystod yr arolygiad hwn, gwnaethom argymell bod yr arweinwyr yn gwneud y canlynol:

- rhoi system ar waith i wella'r broses o gofnodi cymwysterau'r staff;
- sefydlu system effeithiol ar gyfer cofnodi a monitro dyddiadau hyfforddiant cymorth cyntaf a diogelu;
- defnyddio'r cyfrif ar-lein er mwyn diweddaru'r datganiad o ddiben;
- hyrwyddo annibyniaeth y plant ymhellach.

## 6. Sut y gwnaethom gynnal yr arolygiad hwn

Gwnaethom gynnal arolygiad â phwyslais penodol er mwyn gwneud gwaith dilynol ar hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio a roddwyd yn yr arolygiad diwethaf. Ymwelodd dau arolygydd â'r gwasanaeth hwn yn ddirybudd ar 10 Rhagfyr 2019, gan dreulio tua dwy awr yn y gwasanaeth. Gwnaethom y canlynol:

- adolygu'r wybodaeth a ddelir, neu a dderbyniwyd, gan AGC;
- siarad â'r person cofrestredig a'r person â chyfrifoldeb;
- siarad â rhai aelodau o'r staff;
- ystyried rhai cofnodion gweithredol yn cynnwys y datganiad o ddiben, rhai asesiadau risg a pholisïau;
- arsylwi ar y plant a'r staff am gyfnod byr;
- gadael holiaduron staff iddynt eu cwblhau'n gyfrinachol os oeddent yn dymuno;
- rhoi adborth i'r person cofrestredig ar 16 Rhagfyr 2019.

Ceir rhagor o wybodaeth am yr hyn rydym yn ei wneud ar ein gwefan:
www.arolygiaethgofal.cymru

## 7. Ynglŷn â'r gwasanaeth

| | |
|---|---|
| **Y math o ofal a ddarperir** | **Gofal Dydd Plant**<br>**Gofal y Tu Allan i'r Ysgol** |
| **Person Cofrestredig** | **Paul Lloyd** |
| **Person â chyfrifoldeb** | **Lisa Evans** |
| **Uchafswm y lleoedd a gofrestrwyd** | **56** |
| **Ystod oedran y plant** | **Hyd at 12 oed** |
| **Oriau agor** | **3.00pm-6.00pm** |
| **Iaith weithredol y gwasanaeth** | **Saesneg â rhywfaint o Gymraeg achlysurol** |
| **Dyddiad arolygiad blaenorol Arolygiaeth Gofal Cymru** | **25 a 26 Mehefin 2019** |
| **Dyddiad yr ymweliad arolygu hwn** | **10 Rhagfyr 2019** |
| **A yw hwn yn wasanaeth Dechrau'n Deg?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth yn darparu addysg blynyddoedd cynnar ar gyfer plant tair a phedair oed?** | **Nac ydy** |
| **A yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r Cynnig Rhagweithiol ar gyfer y Gymraeg?** | **Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' ar gyfer y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth neu sy'n bwriadu gwneud hynny. Argymhellwn y dylai'r darparwr gwasanaeth ystyried canllawiau strategol olynol 'Mwy na Geiriau' Llywodraeth Cymru**<br>**ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol.** |
| **Gwybodaeth Ychwanegol:** | |

**Dyddiad Cyhoeddi** 27/02/2020